OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1281

# Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 5

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hadau

**Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**5.**—(1) Mae rheoliad 2 o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Cymraeg paragraff (12), hepgorer ", 8".

(3) Ar ôl paragraff (12) mewnosoder—

"(12A) Yn nhestun Cymraeg paragraff 8(b) o Ran 3 o Atodlen 1—

(a) ym mharagraff (i), ar ôl "gradd S" mewnosoder "y DU",

(b) ym mharagraff (ii), ar ôl "gradd SE" mewnosoder "y DU", ac

(c) ym mharagraff (iii), ar ôl "gradd E" mewnosoder "y DU"."

(4) Yn y testun Cymraeg, yn lle paragraff (17)(b)(iii) rhodder—

"(iii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd "SE", yng ngholofn 2, yn lle "radd S yr Undeb neu'n radd SE yr Undeb" rhodder "radd S y DU, gradd SE y DU, gradd S yr Undeb neu radd SE yr Undeb"."

(**1**) O.S. 2019/738 (Cy. 141).